ATODLEN 2

Troseddau a bennir at ddibenion rheoliad 7(9) a (10)

RHAN 2

12. Daw person o fewn y paragraff hwn os yw wedi ei euogfarnu o unrhyw un neu ragor o'r troseddau a ganlyn yn erbyn plentyn a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd neu os yw wedi cael rhybuddiad gan gwnstabl mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd o'r fath—

(a) trosedd o dan adran 2 neu 3 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956 (caffael menyw drwy fygwth neu haeru anwir),

(b) trosedd o dan adran 4 o'r Ddeddf honno (rhoi cyffuriau i gael neu hwyluso cyfathrach),

(c) trosedd o dan adran 14 neu 15 o'r Ddeddf honno (ymosod anweddus),

(d) trosedd o dan adran 16 o'r Ddeddf honno (ymosod gan fwriadu cyflawni sodomiaeth),

(e) trosedd o dan adran 17 o'r Ddeddf honno (herwgydio menyw drwy rym neu oherwydd ei heiddo), ac

(f) trosedd o dan adran 24 o'r Ddeddf honno (cadw menyw mewn puteindy neu mewn mangre arall).